Cymunedau
Gwydn Dŵr

Casnewydd

# Cefnogaeth



# Neges o groeso

**Wrth galon y Prosiect Cymunedau Gwydn o ran Dŵr mae ymrwymiad sy'n mynd y tu hwnt i fusnes fel arfer. Mater o glustnodi cyfleoedd i estyn llaw at bobl yw hi, mater o fwy na dim ond rhaw yn y ddaear, ond mater o gofleidio ein cyfrifoldeb dros bob agwedd ar y cymunedau a wasanaethwn. Mae'n tynnu ar ddull o weithredu ar sail gwerthoedd, sydd wedi bod yn allweddol wrth lunio'n prosiect a'i effaith bositif ar y gymuned.**

Rydyn ni wedi annog i fwy o bobl sy'n ei chael hi'n wirioneddol anodd talu eu biliau gofrestru ar gyfer ein o'n tariffau cymdeithasol, ac rydyn ni wedi defnyddio'r cyfle hefyd i ddarbwyllo rhagor o bobl i gofrestru ar gyfer ein Cofrestr Gwasanaethau Blaenoriaeth mewn ymdrech i ddeall pa gymorth ychwanegol sydd ei angen arnynt. Rydyn ni wedi cynnig gwersi am ddim i bob ysgol yn yr ardal er mwyn addysgu cwsmeriaid y dyfodol, ac wedi darparu cymorth effeithlonrwydd dŵr ar gyfer pob cartref yn yr ardal.

Dechreuodd y siwrnai fel cynllun i ategu rhaglen fuddsoddi bwysig yn ardal Cwm Rhondda Fach - ac mae hi wedi esblygu wrth i ni symud ein ffocws i'r Rhyl, Rhymni, Bargoed yn ystod cyfnod ymestynnol Covid-19, ac yn fwy diweddar, Casnewydd. Mae'r llyfryn hwn yn destament i'r siwrnai hynod yn ein hymdrechion i feithrin gwytnwch y gymuned, ac effaith hyn ar bobl Casnewydd ar adeg pan fo costau byw ar eu huchaf.

Beth sy'n gosod y prosiect yma ar wahân i'r lleill yw ei ymrwymiad di-sigl i bartneriaethau, yn ogystal â'n hymroddiad i ddeall rhai o sialensiau mwyaf ein cymunedau. Trwy wrando'n astud ar leisiau'r gymuned i lywio ein hymyraethau a chydweithio'n effeithiol i oresgyn adfyd, mae hi wedi helpu i hwyluso newid parhaus. Datblygodd ein tîm gysylltiadau cadarn â rhanddeiliaid lleol gan sicrhau ein bod ni'n rhan annatod o'r gymuned. Trwy chwilio am gyfleoedd i gyd-gynhyrchu, rydyn ni wedi manteisio ar wybodaeth ychwanegol gan y gymuned ei hun, sydd wedi arwain at atebion gwirioneddol ystyrlon.



**Pete Perry**
Prif Weithredwr

# Cynnwys


**Neges o groeso** 2

**Trosolwg o'r prosiect** 4

**Sialensiau Casnewydd** 5

**Ein dull o weithredu** 6

**Bod yn rhagweithiol** 6

—— Astudiaeth achos: cefnogi Maria o Gasnewydd 7

—— Clirio'r bloc 7

—— Lleihau dyledion 7

—— Cymorth parhaus 7

**Arloesi** 7

—— Partneriaeth gyda Grow Social Capital 8

—— Gwneud ***gyda***, nid ***wrth***, ein cymuned: ein siwrnai cyd-gynhyrchu 8

—— Astudiaeth achos: rhoi'r ddysg ar waith yng Nghanolfan Eden Gate 9

**Pennu nod** 10

—— Mynd â'r ganolfan alwadau i'r ganolfan gymunedol 10

—— Cenedlaethau'r dyfodol, dechrau heddiw 10

—— Pontio i gyflogaeth 11

—— Gyda'n gilydd, cryfach: achubiaeth i gwsmeriaid sy'n ei chael hi'n anodd 11

—— Astudiaeth achos: dathlu'r gymuned a gwynwch — digwyddiad i deuluoedd 12

**Y canlyniadau — mewn rhifau** 13

Cymorth i gwsmeriaid bregus 14

Cymorth dyledion 14

Cymorth effeithlonrwydd dŵr 15

Cymorth gyrfaoedd a chyflogadwyedd 15

Cymorth addysgol 16

Cymorth i glirio'r bloc 16

**Etifeddiaeth y prosiect: siwrnai gydweithredol tua chymorth cymunedol** 17

# Trosolwg o'r prosiect

## Sut mae mynd ati i fynd gam ymhellach i helpu cwsmeriaid mewn ardaloedd o amddifadedd dwfn mewn argyfwng costau byw?

I ni, mater o ddatblygu rhaglen sy'n seiliedig ar werthoedd, sy'n cael ei chyd-gynhyrchu, sy'n gefnogol ac yn seiliedig ar le, gan ddefnyddio offer newydd arloesol a dirnadaeth adeiladol yw hi, wrth i ni helpu i feithrin capasiti aelwydydd a chymunedau i fod yn fwy gwydn yn raddol bach. I'r cwsmeriaid, "***gwnaeth hyn wahaniaeth mawr***", ac i Ddŵr Cymru a'i bobl, galluogodd hyn iddynt dyfu a rhoi mwy o ymdeimlad o bwrpas iddynt trwy eu gwaith hefyd.

Yng Nghasnewydd, pwysleisiodd ein strategaeth ymdrechion cydweithredol ar draws chwe gwasanaeth cymorth allweddol sef:

- cwsmeriaid bregus
- dyledion
- recriwtio
- addysg
- effeithlonrwydd dŵr
- rhwydweithiau gwastraff

Trwy estyn allan at bartneriaid cydnabyddedig y gallwn ymddiried ynddynt yng Nghasnewydd am ddirnadaeth a chyfleoedd, fe fabwysiadon ni ddull integredig a chydweithredol o weithio er mwyn sicrhau bod gweithgareddau'n llesol i'n busnes, ein cwsmeriaid a'r gymdeithas ar led. Am ei bod hi'n cwmpasu holl swyddogaethau'r cwmni, llesiant cenedlaethau'r dyfodol sydd wedi arwain y ffordd ar hyd y siwrnai, gyda gweithgareddau'r prosiect yn cael eu mapio yn erbyn pob nod. Y peth hanfodol yw nad yw'r gweithgareddau'n cael eu cyflawni gan unrhyw un adnodd penodol — yn hytrach maent yn gofyn i ni newid ein ffordd o wneud pethau, a dysgu o'r profiad.

6
gwasanaethau cymorth allweddol

cwsmeriaid bregus

dyledion

recriwtio

addysg

effeithlonrwydd dŵr

rhwydweithiau dŵr gwastraff

# Sialensiau Casnewydd

Mewn asesiad ehangach gyflwr llesiant economaidd, cymdeithasol, amgylcheddol a diwylliannol yr ardal, cynigiodd Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Gwent y crynodeb canlynol o Gasnewydd yn 2021:

> Mae LSOA (Ardaloedd Cynnyrch Ehangach Haen Is) Allt-yr-ynn 2, Stow Hill 3, Pillgwenlli 1, Pillgwenlli 3, Pillgwenlli 4 a Shaftesbury 1 ymysg y 10% o ardaloedd mwyaf difreintiedig yng Nghymru (yn gyffredinol). Roedd Stow Hill 2 ymysg y 50% o ardaloedd mwyaf difreintiedig, a Phillgwenlli 2 ymysg yr 20% mwyaf difreintiedig. Yn gyffredinol, Pillgwenlli yw un o wardiau mwyaf difreintiedig Casnewydd, gyda thair o'r pedair LSOA ymysg y 10% o ardaloedd mwyaf difreintiedig yng Nghymru.

Nodweddir y 10% o LSOAs mwyaf difreintiedig yn ardal y prosiect, fel y cawsant eu clustnodi ym Mynegai Aml-amddifadedd Cymru, gan boblogaethau iau. Maen nhw'n wynebu problemau sylweddol o ran diogelwch cymunedol, addysg, cyflogaeth ac incwm. Mae Pillgwenlli 1 a 4 yn dangos lefelau arbennig o ddifrifol o amddifadedd o ran cyflogaeth ac incwm. Mae sialensiau o ran iechyd, tai a'r amgylchedd yn amlwg yn y cymunedau hyn sydd â phoblogaeth gymedrol ac amddifadedd uchel hefyd.



# Ein dull o weithredu

Mae gwaith **arloesol**, **pwrpasol** a **rhagweithiol** y prosiect yn cynnig model ar gyfer partneriaethau corfforaethol cyfrifol er mwyn i bobl eraill ddysgu ganddynt, eu haddasu a'u dilyn.

## Bod yn rhagweithiol

Mae troi bwriadau'n weithredoedd yn golygu gweithio gydag eraill yn rhagweithiol. Yn allanol, gyda dros ugain o grwpiau a sefydliadau — o ganolfannau cymunedol i gymdeithasau tai, canolfannau i bobl ddigartref i ysgolion — yn chwarae rhan yn y fenter, gyda'n gilydd rydyn ni wedi bod yn gryfach.

Yn fewnol, mae'r fenter yn tynnu'r timau sy'n gweithio ym meysydd cwsmeriaid bregus, effeithlonrwydd dŵr, adnoddau dynol, addysg a'r rhwydwaith gwastraff a dyledion ynghyd i weithio gyda nid wrth ei gwsmeriaid a chymunedau. Mae hynny wedi hwyluso gwell ymateb i'r sialensiau adfyd cyffredin, fel y cynnydd mewn chwyddiant - a sialensiau amgylcheddol ehangach.

Ar ôl clustnodi'r rhanddeiliaid, cynhaliwyd gweithdy i rannu safbwyntiau a syniadau gyda'r grŵp er mwyn casglu adborth. Arweiniodd hyn, ynghyd â'r awydd cynyddol a chynhenid i feithrin perthnasau newydd wrth edrych tua'r dyfodol, at greu rhwydwaith helaeth o sefydliadau o'r un anian.

Cydnabod gwerth gweithio gyda sefydliadau lleol eraill y gallwn ymddiried ynddynt — yn ogystal â sut y gallai hynny arwain at gyfleoedd i gyd-gynhyrchu. Ymhlith ein rhanddeiliaid roedd:

- Busnes yn y Gymuned (BITC): Menter Lle
- Cyngor Dinas Casnewydd
- Cartrefi Dinas Casnewydd
- Canolfan Byd Gwaith Casnewydd
- Grow Social Capital
- Rhwydwaith Cyd-gynhyrchu Cymru
- Canolfan Eden Gate, Casnewydd
- Melin Homes
- Save the Children
- Bwrdd Iechyd Prifysgol Aneurin Bevan: Rhwydwaith Llesiant Integredig
- Academi Arweinyddiaeth Cenedlaethau'r Dyfodol, Swyddfa Comisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol
- Newport MIND



Partneriaid yn dod ynghyd ym Mhrifysgol De Cymru yng Nghasnewydd i wrando'n fwy astud a dysgu rhagor am y sialensiau sy'n wynebu cymunedau yn yr ardal.

Mae Maria yn cael triniaeth ar ôl cael diagnosis o ganser. Yn anffodus, ffeindiodd ei hun mewn dyled sylweddol ar ei biliau, oedd yn achosi pryder mawr iddi. Yn ogystal â hyn, ar ôl i ddraen breifat flocio yng ngardd Maria yn ddiweddar, roedd carthion heb eu trin wedi llifo dros ei gardd. Roedd hyn, ynghyd â'i hiechyd gwael, yn cael effaith negyddol ar ei lles.

Diolch i bresenoldeb uwch mewn canolfannau cymuned lleol, cododd cynghorydd lleol ei sefyllfa gydag un o'n Cynghorwyr o'r Tîm Cwsmeriaid Bregus yn y Gymuned, Jody Perkins:

Dywedodd Jody: ***"O edrych ar amgylchiadau Maria, roedd hi'n amlwg fod angen i ni gamu i mewn i helpu, a bod angen gweithredu mewn ffordd integredig a chydweithredol.***

***"Diolch i'r partneriaethau gwerthfawr a lefel yr ymddiriedaeth roeddem wedi ei meithrin gyda chwsmeriaid a phartneriaid yn ardal Pillgwenlli, yn rhan o'r prosiect Cymunedau Gwydn o ran Dŵr ehangach, bu modd i ni drefnu lefel o gymorth a fu'n drech na disgwyliadau Maria. Fe weithion ni gyda'n cydweithwyr Asedau Dŵr Gwastraff a chymorth Dyledion, a bu modd cyflawni canlyniadau gwych."***

## Clirio'r bloc

Fel cwmni carthffosiaeth, ein cyfrifoldeb ni yw bod yn berchen ar y rhwydweithiau carthffosiaeth cyhoeddus a'r rhwydweithiau (PST) a drosglwyddwyd o fewn ein hardal weithredu a'u cynnal, a'r cwsmeriaid sy'n gyfrifol am gynnal eu carthffosydd preifat. Ar ôl ymchwilio i'w hamgylchiadau unigryw, bu modd i'n cydweithwyr dŵr gwastraff gael ei dŵr gwastraff yn llifo eto — ac aethant gam ymhellach hefyd trwy lanhau ei gardd er mwyn ei galluogi i ddefnyddio ei lle awyr agored unwaith eto.

Yn ogystal, cyfeiriwyd Maria am gymorth pellach trwy elusennau lleol er mwyn helpu i atal hyn rhag dod yn broblem barhaus.

Dywedodd y Cynghorydd Jenkins: "***Roedd hi wedi bod i ffwrdd am ychydig ddyddiau yn ymweld â'i theulu a daeth hi adref i sypreis hyfryd, doedd hi ddim yn gallu credu beth roedd hi'n ei weld pan welodd fod ei gardd wedi cael ei chlirio... mae Maria wedi gofyn i mi rannu ei diolch - roedd hi'n emosiynol dros ben.***"

## Lleihau dyledion

Roedd hi'n dioddef effeithiau dyledion cyfredol a rhai hŷn, ond bu modd i'n cydweithwyr cymorth dyledion ddileu £1,400 o'r ddyled oddi ar ei chyfrif.

## Cymorth parhaus

Cafodd Maria ei rhoi ar y tariff HelpU, sy'n cynorthwyo aelwydydd incwm isel cymwys trwy osod cap ar y swm y mae angen iddynt dalu am eu dŵr — y tro hwn gan leihau ei thaliadau blynyddol o £500 i £300, sy'n cael ei dalu trwy daliadau Debyd Uniongyrchol fforddiadwy a chymeradwy er mwyn atal dyledion pellach rhag cronni. Cafodd ei hychwanegu at y Gofrestr Gwasanaethau Blaenoriaeth hefyd, sy'n targedu'r cwsmeriaid hynny sydd angen ychydig bach o gymorth ychwanegol o bryd i'w gilydd.

Ychwanegodd y Cynghorydd Jenkins: "***Mae hyn i gyd yn newyddion gwych, alla'i ddim â chredu faint rydych chi wedi ei wneud dros Maria, mae hi'n fendigedig! Rydw i wedi rhannu'r newyddion anhygoel â Maria, roedd hi'n ddiolchgar dros ben ac yn emosiynol iawn am ei bod hi wedi bod yn pryderu ers amser hir.***"

astudiaeth achos

## Partneriaeth gyda Grow Social Capital

Trwy weithio mewn partneriaeth â'r fenter gymdeithasol Grow Social Capital a defnyddio offer gwerth cymdeithasol ffynhonnell agored wedi ei gynhyrchu gan gydweithfa fyd-eang, sef The Dublin Conversations, sefydlwyd dull o weithredu sy'n seiliedig ar werthoedd i lywio naratif strategol a gyrru ein dull pwrpasol o weithio ac o wneud pethau.

Trwy ddefnyddio proses 7 cam 'Darganfod eich pwrpas' The Dublin Conversations, helpwyd i glustnodi gwerthoedd, hunaniaeth, credoau, straeon sbarduno newid, greddf gymdeithasol, pwrpas a phrif nodau'r prosiect.


O'r rhain, clustnodwyd pump o brif werthoedd prosiect, sef:

1. Rydyn ni'n gweithio i gyflawni gwell Pwrpas Cyffredin
2. Rydyn ni'n parchu'r dyngarwch rydym yn ei rhannu ag eraill
3. Mae pob ochr yn rhannu cyfrifoldeb dros y deilliannau
4. Rydyn ni'n cyflawni trwy gydweithio a phartneriaethau
5. Rydyn ni'n dal ati mewn ffordd hyblyg. Os nad ydym yn llwyddo ar y cynnig cyntaf, rydyn ni'n rhoi cynnig arall arni, gan chwilio am ffyrdd gwahanol o lwyddo.

Aeth y gwerthoedd hyn y tu hwnt i'r sloganau gan ddod yn offeryn rheoli craidd a oedd yn fframio ein gweithredoedd. Dwysaodd yr ymarfer ein gallu i fframio ein ffordd o feddwl, gwneud a chyfathrebu wrth gyflawni prosiect.

## Gwneud *gyda*, nid *wrth*, ein cymuned: ein siwrnai cyd-gynhyrchu

Fel prosiect sy'n darparu cymorth, roeddem ni'n awyddus i sicrhau bod ein cwsmeriaid a'n cymuned yn rhannu cyfrifoldeb dros ddarparu'r cymorth yna, gan ei gwneud hi mor ystyrlon â phosibl. Er bod yna dipyn o ffordd i fynd o hyd er mwyn gwireddu ei botensial cyd-gynhyrchu, dangosodd ein gweithdy gyda Rhwydwaith Cyd-gynhyrchu Cymru, a'r sesiynau cynghori a ddilynodd hynny, bŵer ymgorffori gwerthoedd cyd-gynhyrchu i'r pethau a wnawn. Roedd hyn wir yn golygu rhywbeth yng Nghanolfan Eden Gate yng Nghasnewydd — ac wrth i'r prosiect yma barhau i esblygu, bydd yn chwarae rhan fwy byth.




*Mae cymunedau iach, bywiog a chynaliadwy yn gofyn am lefelau cryf o gyfalaf cymdeithasol — y cryfder a'r pŵer o fewn cymunedau, perthnasoedd, normau cymdeithasol, hunaniaethau a gwerthoedd ar y cyd — neu i ddefnyddio trosiadau TG, y system weithredu y mae cymunedau yn rhedeg arni. Mae angen i ni gysylltu â eraill ar lefel lawer dyfnach, drwy rannu gwerthoedd, i weithredu newid go iawn gyda'n gilydd.*

Andy Green, Cyfarwyddwr Grow Social Capital

## Astudiaeth achos: rhoi'r ddysg ar waith yng Nghanolfan Eden Gate

Pan siaradon ni â Rheolwr Gweithrediadau Canolfan Eden Gate i Bobl Ddigartref yng Nghasnewydd, diolch i gyflwyniad trwy BITC (Busnes yn y Gymuned), gwnaeth sawl peth i ni aros a meddwl. Dyna pam fod y cyfle i chwarae rhan wrth helpu eu gwesteion i'w helpu eu hunain wedi bod yn brofiad hynod o werth chweil i ni.

Wrth i ni ddatblygu'r bartneriaeth annhebygol yma, daeth hi'n glir faint y gallem ei wneud i helpu gwesteion y ganolfan i oresgyn y rhwystrau yn eu bywydau.

Yn gyson â'r dull cysylltiedig o weithio, fe gynigion ni gymorthfeydd i gwsmeriaid bregus, archwiliadau effeithlonrwydd dŵr, cyllid cymunedol (ar gyfer gardd les) a sesiynau llythrennedd i oedolion. Cafodd yr olaf o'r rhain ei gyd-gynhyrchu i gynnwys dinasyddion, a'i gyflawni ar y cyd â'r Ymddiriedolaeth Llythrennedd er mwyn sicrhau cymaint o effaith â phosibl. Roedd hyn wir yn golygu rhywbeth i westeion y ganolfan.

"*Fe gollais i allan ar lawer o bethau fel plentyn. Felly dyma'r union beth sydd ei angen arna'i. Os rhowch chi lyfr i mi, bydd hi'n anodd i mi.*"


Mae ein partneriaid yng Nghanolfan Eden Gate yn rhannu hanes Katie, sy'n 33 oed ac yn mynychu'r ganolfan yn rheolaidd. Ar ôl dod yn ddigartref, dechreuodd Katie a'i phartner fynychu Eden Gate a chymryd rhan yn y rhaglen galw heibio ac yn eu rhaglen Shoulder 2 Shoulder.

Ym mis Gorffennaf 2023, gyda chymorth Dŵr Cymru a'r Ymddiriedolaeth Llythrennedd Cenedlaethol, dechreuodd Eden Gate gynnal sesiynau sgiliau llythrennedd wythnosol ar gyfer gwesteion oedd am wella eu sgiliau darllen ac ysgrifennu. Cofrestrodd Katie i gymryd rhan, a'i phrif gymhelliant oedd ei hawydd i sefyll ei phrawf theori gyrru, y cam cyntaf ar y llwybr i brynu a gyrru car, sy'n rhywbeth roedd hi wedi bod yn awyddus i'w wneud ers amser.

Mae Katie wedi elwa'n fawr ar y cymorth fesul un a gafodd gan yr athrawon hyfforddedig o Ddŵr Cymru oedd yn gwirfoddoli eu hamser, ac o ganlyniad, mae ei sgiliau darllen a'i hyder wedi gwella'n fawr yn sgil y sesiynau. Mae'r athrawon, staff Eden Gate ac yn bwysicach na neb, Katie ei hun wedi sylwi ar ei chynnydd. Ers magu hyder, mae Katie wedi bwcio prawf theori gyrru ym mis Tachwedd 2023, ac rydyn ni'n falch o ddweud iddi lwyddo'n dda iawn. Mae hi'n awyddus i barhau i adeiladu ar ei llwyddiannau ac mae'n annog pobl eraill i gael ysbrydoliaeth i wneud rhywbeth tebyg.

Mae'r astudiaeth achos yma'n dangos sut y gall gweithio gydag unigolyn fel Katie i ddatblygu profiadau cadarnhaol wrth feithrin gwybodaeth ymarferol gael effaith fawr a helpu rhywun gyda'u hunanddatblygiad. Mae'n dangos hefyd beth y gellir ei gyflawni trwy weithio mewn partneriaeth effeithiol i gyflawni nodau cyffredin.

I grynhoi, meddai Katie: "***Rydw i mor ddiolchgar i Eden Gate, ac yn arbennig i Dîm Addysg Dŵr Cymru a Sarah o'r Ymddiriedolaeth Llythrennedd, sydd wir wedi fy helpu. Hoffwn i ddiolch iddynt am eu cymorth a'u hamynedd. Fe wrandawon ni arna'i, a chymryd yr amser i ddeall fy anawsterau gyda dysgu a darllen. Rwy'n gobeithio y bydd pobl eraill yn penderfynu cymryd rhan hefyd pan fyddan nhw'n barod***".



astudiaeth achos

> "Mae yna rai sialensiau sydd ddim cweit mor amlwg i ni ar adegau. Mae llythrennedd yn un mawr – dydy pobl ddim yn hoffi dweud nad ydyn nhw'n gallu darllen."

# Pennu nod

## Mynd â'r ganolfan alwadau i'r ganolfan gymunedol

**Sut mae mynd ati i gynorthwyo cwsmeriaid sy'n wynebu dyledion mawr, ond sy'n gyndyn i drafod y peth?**
Ein hateb ni oedd mynd â'n cynghorwyr dyledion allan o'r ganolfan gysylltu i'r ganolfan gymunedol, gan feithrin ymddiriedaeth ar lafar.

### Y canlyniad

Mae mynd â'n cynghorwyr dyledion o'r ganolfan alwadau i'r ganolfan gymunedol wedi trawsnewid ein cysylltiadau â chwsmeriaid – gan ddarparu cymorth hwylus a chyfeillgar, a chaniatáu i gwsmeriaid ffeindio'u ffordd trwy'r sialensiau ariannol gyda chymorth pwrpasol.



*"Rwy'n nerfus iawn wrth siarad ar y ffôn. Fe ddes i i lawr ac mae'r dyn wedi rhoi cymorth i mi. Rwy'n trio rhoi trefn ar bethau. Mae'r esgid wir yn gwasgu. Rwy'n teimlo bod popeth yn fy llethu'n ddiweddar. Cyhyd ag y byddaf i'n cadw i fyny â'r taliadau ar y tariff newydd, caiff y dyledion eu clirio."*

## Cenedlaethau'r dyfodol, dechrau heddiw

**Sut mae mynd ati i sicrhau bod cenedlaethau'r dyfodol yn datblygu sgiliau eang a gwybodaeth amgylcheddol, wrth ysbrydoli diddordeb yn niwydiant y cyfleustodau at y dyfodol?**
I ni, yr ateb oedd mynd â'n tîm addysg i mewn i ddosbarthiadau a darparu gweithdai pwrpasol, ymarferol ac addysgiadol.

### Y canlyniad

Mae sesiynau addysgiadol, ymarferol a llawn gwybodaeth wedi helpu i ysbrydoli cenedlaethau'r dyfodol yn yr ardal. Trafododd yr ymweliadau ysgol rhad ac am ddim yma yn seiliedig ar y cwricwlwm amrywiaeth o themâu pwysig o ran yr amgylchedd a chynaliadwyedd, wrth hyrwyddo agwedd gadarnhaol at bynciau STEM (Gwyddoniaeth, Technoleg, Peirianneg a Mathemateg).



*Gan ddefnyddio'r chwyddwydrau bach yna, fe edrychais i ar was y neidr – roedd ganddo gynffon hir a llygaid mawr!*

# I fod yn bwrpasol

## Pontio i gyflogaeth

**Sut mae mynd ati i godi dyheadau pobl, a helpu i daclo diweithdra?**

I ni, yr ateb oedd gweithio gyda hyfforddwyr gwaith o'r canolfannau gwaith lleol i ddarparu gweithdai cyflogadwyedd sy'n arwain at gyfleoedd go iawn o fewn cwmni.

**Y canlyniad**

Trwy feithrin dialog adeiladol gyda Chanolfan Byd Gwaith Casnewydd a symud ymlaen i gynorthwyo'r fenter Cylchoedd Mentora yn ystod Mis Gwasanaethau Cwsmeriaid, ac ymgorffori cyfweliad cyn-sgrinio, ysbrydolwyd darpar-gyflogeion geisio am swyddi gyda'r cwmni.




*Mae hi wedi rhoi llawer o gefndir i mi na fyddwn i wedi ei gael o'r blaen. Mae gen i fwy o wybodaeth i allu ymgeisio am swydd.*

## Gyda'n gilydd, cryfach: achubiaeth i gwsmeriaid sy'n ei chael hi'n anodd

**Sut mae lledu gwybodaeth am holl gwmpas y cymorth sydd ar gael i gwsmeriaid sy'n cael trafferth talu biliau?**

I ni, yr ateb oedd meddwl y tu allan i'r bocs, gwerthfawrogi'r sefyllfaoedd unigryw ac ymestynnol sy'n wynebu rhai o'n cwsmeriaid, a sicrhau presenoldeb gweledol mewn amrywiaeth o hybiau cymunedol.

**Y canlyniad**

Trwy gynnal cymorthfeydd i rieni ar safleoedd ysgolion wrth iddynt fynd â'r plant i'r ysgol, mynd â'n fan gymunedol i feysydd parcio archfarchnadoedd, a gweithio gyda chymdeithasau tai, daeth ein pobl ni'n rhywbeth cyfarwydd yr oedd cymunedau'n teimlo eu bod yn gallu ymddiried ynddynt. Testament i hynny yw'r nifer helaeth o gwsmeriaid a phartneriaid a ddaeth i'r digwyddiad cymorth a hwyl i deuluoedd yng Nghanolfan Gelfyddydau Glan yr Afon yng Nghasnewydd ym mis Tachwedd 2023



*Roeddem ni'n talu £26 bob pythefnos am ddŵr, ac rydyn ni wedi lleihau hynny i £22 y mis – felly mae hynny'n wahaniaeth mawr; yn gymorth mawr.*

## Astudiaeth achos: dathlu'r gymuned a gwynwch — digwyddiad i deuluoedd

Daeth gweithgareddau'r Prosiect Cymuned Gwydn o ran Dŵr yng Nghasnewydd i ben gyda digwyddiad i deuluoedd dan arweiniad y Tîm Cwsmeriaid Bregus, a gyda chefnogaeth o bob rhan o'r busnes. Yn ogystal â bod yn ddathliad, roedd yr achlysur yn destament i'r partneriaethau cryf a gyflawnwyd dros y 18 mis blaenorol, ac yn dangos yr hwb cydweithredol i ddarparu cymorth lle mae'r angen mwyaf amdano. Cynhaliwyd yr achlysur yn ystod hanner tymor yr hydref, a bu'n gyfle hwylus i deuluoedd oedd yn chwilio am gymorth — a diddanwch i'w rhai bach — fwynhau gweithgareddau am ddim i'r plant wrth gyrchu amrywiaeth o ffynonellau o gyngor.

Roedd dros 37 o sefydliadau'n bresennol, a bu'r diwrnod yn llawn gweithgareddau, cymorth gwerthfawr, sesiynau gwybodaeth, cyfleoedd i ennill gwobrau, lluniaeth ac arddangosiadau. Nod yr achlysur amrywiol yma oedd darparu amrywiaeth cynhwysfawr o wasanaethau cymorth i deuluoedd mewn amgylchedd croesawgar, yn rhydd o'r stigma sy'n gallu bod yn gysylltiedig â digwyddiadau 'Costau Byw' weithiau.

I ni, roedd y digwyddiad yn tynnu holl ffrydiau gwaith y prosiect ynghyd, o'r Tîm Cwsmeriaid Bregus i ddyledion, o addysg i effeithlonrwydd dŵr a'r tu hwnt, gyda phob un yn pwysleisio ein hymrwymiad i gynorthwyo gwytnwch, llesiant ariannol, iechyd cyffredinol aelodau o'n cymuned a chysylltu'n agos â nodau llesiant cenedlaethau'r dyfodol (Cymru).

Sicrhaodd ein dull o weithredu o ran y digwyddiad — o gyd-gynhyrchu deunyddiau hyrwyddo gydag aelodau ar lein Cartrefi Dinas Casnewydd, i guradu'r rhestr o weithgareddau'n ofalus — berthnasedd a chysylltiad o fewn y gymuned. Gyda dros 300 o gwsmeriaid yn bresennol, a llawer ohonynt yn manteisio ar y cyfle i estyn allan am gefnogaeth, dyma dempled ar gyfer sut y gallwn ni, ac eraill, werthu'r syniad o gynnal digwyddiad o'r math yma yn y dyfodol er mwyn cael yr effaith gymdeithasol fwyaf bosibl.



astudiaeth achos

"Gwybodaeth wych i deuluoedd. Diwrnod o hwyl i'r plant. Hyfryd gweld Dŵr Cymru'n gweithio mewn partneriaeth â'u cwsmeriaid."

# Y canlyniadau — mewn rhifau

Nid rhifau yw amcan y prosiect; ond gwneud gwahaniaeth go iawn ac ystyrlon, dysgu o hynny, a defnyddio'r ddysg ym mhopeth a wnawn.

Fodd bynnag, o fewn ardal y brosiect, sy'n ffocysu'n bennaf ar ardal ddaearyddol fechan sy'n llai na 25km$^2$ ac â phoblogaeth o tua 40,000 yng Nghorllewin Casnewydd, mae'r rhifau'n adrodd stori...



## Cymorth i gwsmeriaid bregus

I drigolion, daeth ein fan gymunedol las yn rhywbeth cyfarwydd wrth i'n tîm Cwsmeriaid Bregus barcio wrth galon cymunedau Casnewydd ar gyfer **37 o ddigwyddiadau**. Estynnodd y cymorth yma ymhellach i gynnwys digwyddiadau ar y cyd â phartneriaid cydweithredol a darparu hyfforddiant trydydd parti er mwyn meithrin ymwybyddiaeth am ein cymorth i gwsmeriaid. Bu'r dull yma o weithredu'n ffordd gyfleus o adolygu **395 o gyfrifon** gan arbed miloedd o bunnoedd i'r cwsmeriaid hynny — ac ychwanegu **333 at ein Cofrestr Gwasanaethau Blaenoriaeth**, sy'n cynnig help llaw i'r bobl hynny sydd angen ychydig bach o gymorth ychwanegol o bryd i'w gilydd. Ynghyd â'r presenoldeb cymunedol yma, a diolch i'n gwaith cydweithredol, cafodd cannoedd o gwsmeriaid o ardal ehangach Casnewydd eu cynorthwyo i gael ein tariffau ar gyfer aelwydydd cymwys ag incwm isel.

395
o gyfrifon wedi'u hadolygu




## Cymorth dyledion

Trwy ddull gweithredu rhagweithiol i gynorthwyo cwsmeriaid ag anawsterau dyledion, cynhaliodd ein Tîm Dyledion gymorthfeydd dyledion, wyneb yn wyneb, dros dro yn y gymuned. Trwy fynd â'n cymorth dyledion allan o'r ganolfan dyledion ac i mewn i'r gymuned llwyddwyd i ddangos empathi a gofal ein pobl sy'n helpu o ben arall y ffôn fel rheol. Ar ôl estyn allan at dros **2,692 o gwsmeriaid** i'w hysbysu am ein presenoldeb yn y gymuned, daeth **41 o gwsmeriaid oedd wedi ymddieithrio'n** benodol i gael cymorth yn eu hyb cymunedol lleol. Sefydlwyd dros **326 o gynlluniau talu newydd**, ac mae llawer o gwsmeriaid eisoes wedi eu hymbweru i wneud newid cadarnhaol o ran eu harferion talu ac rydyn ni eisoes yn gweld manteision y dull holistaidd yma o weithredu.

326
cynllun talu newydd



## Cymorth effeithlonrwydd dŵr

Newidiadau bach sy'n gwneud gwahaniaeth mawr. Wrth i ni weld hafau mwy cynnes a sych, mae gwaith ein tîm Cartref i annog ein cwsmeriaid i ddefnyddio beth sydd ei angen arnynt — ond i beidio â gwastraffu dŵr, wedi taro tant gyda chymunedau. Dosbarthodd y tîm dros **1,081 o ddyfeisiau arbed dŵr** o fewn yr ardal, gan helpu i feithrin diwylliant o gynaliadwyedd trwy ein cynnig Get Water Fit. Cafwyd effaith gadarnhaol hefyd trwy drwsio **196 o doiledau oedd yn gollwng**, a chyflawnwyd 100 yn rhagor o ymweliadau ag eiddo cwsmeriaid sy'n defnyddio llawer o ddŵr ar draws yr ardal ehangach. Yn gyson ag egwyddorion y prosiect, manteisiwyd ar gyfleoedd i gydweithio â Chartrefi Dinas Casnewydd a'r Grŵp Pobl - gyda'r cyntaf o'r rhain yn arwain at ymweliadau â 9 safle llety i bobl dros 50 oed ochr yn ochr â'n Timau Cwsmeriaid Bregus, gan ddosbarthu **191 o gynhyrchion pellach**.

trwsio
196
o doiledau oedd yn gollwng



## Cymorth gyrfaoedd a chyflogadwyedd

Mewn ardal lle mae rhai o'r cyfraddau diweithdra uchaf yng Nghymru, mae gallu helpu i ddatblygu a darparu cyfleoedd ar gyfer pobl leol sy'n chwilio am waith yn arbennig o bwysig. Cydweithiodd ein tîm Talent a Datblygu'n agos â Chanolfan Byd Gwaith Casnewydd a'r DWP yn yr ardal. Un o'r gweithgareddau mwyaf nodedig oedd cynnal digwyddiad cyn-sgrinio trwy Gylchoedd Mentora'r Ganolfan Waith yn ystod wythnos Gwasanaethau Cwsmeriaid, ac aeth **2 berson oedd yn chwilio am waith** ymlaen i sicrhau cyflogaeth gyda'r cwmni. Mewn rhannau eraill o ardal y prosiect, cafodd dros **20 o bobl oedd yn chwilio am waith** gymorth.

2
ceisiwr gwaith yn cael cyflogaeth



## Cymorth addysgol

Mae Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol yn dylanwadu ar bopeth a wnawn fel cwmni, ac felly mae hi'n arbennig o briodol ein bod ni'n gweithio mewn ffordd ragweithiol o fewn y dirwedd addysgol. Yng Nghasnewydd, mae ein Tîm Addysg yn gweithio gydag ysgolion, ymarferwyr a disgyblion ar draws yr ardal, gyda bron i **4,932 yn cymryd** rhan mewn cyfleoedd ysbrydoledig i ddysgu wrth i'r tîm dreulio **84 awr mewn ystafelloedd dosbarth**. Gan fanteisio i'r eithaf ar ein dull gweithredu unigryw wrth secondio athrawon, bu modd hefyd i ni hwyluso sesiynau gyda disgyblion a oedd yn cael eu gweld fel rhai ag ymddygiad heriol yn aml. Gan fentro i dir addysgegol newydd, defnyddiwyd arbenigedd ein tîm i ddarparu **16 awr o gymorth llythrennedd** ar gyfer aelodau o'r gymuned sydd mewn perygl o fod yn ddigartref.

84
o ymyriadau carffosydd




## Cymorth i glirio'r bloc

Mae gwaith ein Timau Rhwydwaith Gwastraff yn esiampl dda o'r ffordd unigryw y mae'r prosiect yma'n tynnu swyddogaethau holl wahanol rannau'r busnes ynghyd trwy ddull integredig o weithredu. Parhaodd y gwaith i geisio atal problemau yn ein carthffosydd fel bod popeth yn llifo fel y dylai, bod ein pibellau mewn cyflwr da ac nad yw'r pethau anghywir yn achosi bloc. Yn ystod amserlen y prosiect, cyflawnodd y tîm **34 o ymyraethau mewn carthffosydd** yn yr ardal, gan arwain at waith glanhau, trwsio, clirio allfeydd a gosod telemetreg. Gosodwyd **22 o Larymau Carthffosiaeth i Gwsmeriaid** hefyd er mwyn cynorthwyo gwaith rhagweithiol a chydweithiodd y tîm gyda gwasanaethau mewnol eraill i hybu negeseuon allweddol Stop Cyn Creu Bloc, a chynorthwyo cwsmeriaid i oresgyn sialensiau.

34
ymyriadau carthffosydd



# Etifeddiaeth y prosiect: siwrnai gydweithredol tua chymorth cymunedol

Mae rhannu'r llyfryn hwn yn rhoi darlun bach o'n siwrnai barhaus i gysylltu'r gymuned. Mae'r ddogfen hon yn dangos natur esblygol ein gwaith, gan bwysleisio bod dysgu wedi bod llawn cymaint rhan o'n proses a'r deilliannau a gyflawnwyd.

Gan ganolbwyntio ar ardaloedd o amddifadedd uchel, nod y prosiect Cymunedau Gwydn o ran Dŵr yw cyflawni gwerth cymdeithasol trwy ddulliau arloesol o weithio, dyfalbarhad a nodau cyffredin. Ond, ar bob cam, rydyn ni wedi cael ein llywio gan ddirnadaeth a phrofiadau gwerthfawr y cymunedau a wasanaethwn. Mae ein dull o weithredu wedi bod yn gydweithredol yn hytrach na chyfarwyddol, sydd wedi caniatáu i ni addasu ac esblygu mewn ffyrdd sydd wir yn taro tant gydag anghenion lleol.

Mae egwyddorion y prosiect wedi bod yn allweddol. Yn hytrach na'n gosod ein hunain fel yr unig rai sy'n llywio newid, rydyn ni wedi bod yn chwilio'n ymarferol am gysylltiadau gan fusnesau a sefydliadau lleol, gan gydnabod taw ymdrech gydweithredol yw effaith gynaliadwy.

Mae'r llyfryn yn dangos amrywiaeth o astudiaethau achos, y mae pob un ohonynt yn pwysleisio'r llwyddiannau a'r cyfleoedd i ddysgu. Nid dim ond straeon am effaith ein prosiect yw'r rhain, ond hefyd am rym cydweithio, dysgu gan ein gilydd ac esblygu ein strategaethau'n barhaus.

Rydyn ni'n rhannu'r llyfryn hwn ar sail y ddealltwriaeth fod ein prosiect yn rhan o siwrnai fwy a pharhaus. Gwahoddiad i endidau eraill ymuno â ni i geisio effaith gymunedol, a pharhau ag ysbryd o gydweithio a dysgu parhaus sydd wedi bod yn gonglfaen i'n gwaith. Trwy dyfu gyda'n gilydd, gallwn greu byd gwell i ni'n hunain ac ar gyfer cenedlaethau'r dyfodol.

“Trwy dyfu gyda'n gilydd, gallwn greu byd gwell i ni'n hunain ac ar gyfer cenedlaethau'r dyfodol.”